

Pecyn Cymorth Rheoli Cymdogaethau Da





Yn Grŵp Cynefin rydan ni eisiau cefnogi tenantiaid i gael perthynas dda gyda'u cymdogion. Dylai pob un o'n tenantiaid fwynhau cymdogaeth ddiogel a chroesawgar.

Mae'r pecyn cymorth yma yn dweud wrthyh chi beth i'w wneud os ydi ymddygiad cymydog yn eich cynhyrfu neu'n gwneud i chi deimlo'n rhwystredig. Er nad ydi hyn yr un peth â thenant yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol (YG), mae problemau fel hyn yn gallu tyfu i fod yn broblemau YG.

Mae'r canllaw yma yn rhoi syniadau a chyngor i chi am beth i'w wneud os oes problem gyda chymydog. Mae hefyd yn dweud wrthyh chi sut y gallwn ni eich cefnogi.

Datrys Problem

Os ydych chi'n cael problem gyda chymydog, rydan ni'n cynghori i chi ddilyn Cam 1, fel y gwelwch chi yn is i lawr ar y dudalen yma, cyn cysylltu gyda Grŵp Cynefin am help (lle mae hynny'n briodol), ac yna symud ymlaen i Gam 2 os oes angen.

Cam 1

Does dim byd yn cael ei ddatrys heb gyfathrebu da ac felly mae trafodaeth barchus gyda'ch cymydog yn gallu mynd yn bell.

Cyn i chi siarad efo'ch cymydog, edrychwch ar y pynciau yn y rhestr yn is i lawr ar y dudalen. Os ydi un o'r rhain yn broblem sy'n eich poeni, darllenwch yr adran berthnasol am gyngor.

- 6 Gweiddi a dadlau
- 7 Anifeiliaid anwes
- 9 Arogleuon sigarêts a sylweddau eraill
- 10 Anghydfodau parcio
- 12 Cerddoriaeth uchel
- 13 Sŵn cyffredinol y cartref neu'r ystafell fyw
- 13 Offer cartref
- 14 Sŵn gardd
- 15 Mynd i mewn ac allan o'ch cartref
- 15 Gwneud eich hun
- 16 Plant yn chwarae
- 17 Gwrthdaro personol bach
- 17 Digwyddiadau troseddol

Dear Neighbour,
You may not be aware that I was disturbed by one of the following issues
On: _____ (date) at: _____ (time)

Noise
I could hear (especially during unaccusable hours)

☐ your TV	☐ you mowing the lawn
☐ your music	☐ you having a barbecue or social get together
☐ raised voices	☐ vacuuming or washing machine
☐ banging of doors / kitchen cabinets	☐ other _____

This meant I was unable to:

☐ Sleep	☐ Hear my tv	☐ My family were disturbed
--------------------------------	-------------------------------------	---

Os nad ydych chi'n teimlo'n gyfforddus yn siarad â'ch cymydog, gallwch hefyd lenwi a phostio ein cerdyn 'Annwyl Gymydog'. Mae hwn ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan. Fel arall, cysylltwch â'ch Swyddog Tai neu Cyswllt Cynefin a byddan nhw'n gallu rhoi copi i chi.

Os oes gennych chi neu rywun yn eich cartref unrhyw anghenion iechyd meddwl neu gorfforol a allai ei gwneud hi'n anodd delio gyda neu ddatrys problem, rhwch wybod i ni cyn gynted â phosib drwy gysylltu â'ch Swyddog Tai neu Cyswllt Cynefin ar post@grwpcynefin.org neu 0300 111 2122.

Hefyd, os ydych chi'n poeni am lesiant cymydog neu'n mynd atyn nhw i ddatrys problem, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion uchod ac mi allwn ni gynghori ar y camau nesaf. Neu cysylltwch â'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r tîm Iechyd Meddwl os ydych chi'n poeni am lesiant eich cymydog.



Cam 2

Os ydych chi wedi siarad efo'ch cymydog am y broblem a sut mae'n effeithio arnoch chi, ond nad ydi'r broblem wedi'i ddatrys eto, cysylltwch efo'ch Swyddog Tai neu Cyswllt Cynefin. (Ysgrifennwch ddisgrifiad byr o'ch sgwrs a phryd y digwyddodd).

Er bod posib delio efo'r rhan fwyaf o achosion heb orfod defnyddio ein trefn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, rydan ni'n fwy na pharod i'ch helpu i ddatrys y sefyllfa. Gallai hyn gynnwys:

- Trefnu cyfryngu (mae hyn yn gallul helpu os ydi'r ddwy ochr yn cytuno i'r broses) gyda'ch cymydog a chynnig cyngor pellach.
- Ni'n ysgrifennu at eich cymydog (gyda'ch caniatâd chi) gydag awgrymiadau ac arweiniad pellach.
- Rhoi ap sŵn i chi a fydd yn eich galluogi i recordio unrhyw sŵn neu niwsans sy'n tarnu arnoch chi. Mae'n bosib defnyddio hwn i fynd â'r mater ymhellach ac ymchwilio. Os nad oes gennych ffôn clyfar neu ddyfais Apple neu Android, mae yna ffyrdd eraill o gasglu tystiolaeth.
- Eich cyfeirio at asiantaethau a all eich cefnogi chi a'ch teulu. Gall yr asiantaethau yma gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Arweiniad Cymorth.

Os dewiswch beidio cymryd ein cyngor i ddatrys y mater ac nad ydym wedi mynd â'r mater ymhellach i'r drefn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, efallai na fydd dim byd pellach y gallwn ei wneud.

Gweiddi a dadlau

Mewn achos o weiddi a dadlau, ein prif bryder fyddai bod problemau cam-drin domestig posib neu fater diogelu (mae hyn yn cynnwys oedolion yn gweiddi ar blant).



Os ydych chi'n credu y gallai fod yn achos o gam-drin domestig neu'n pryderu am unrhyw un o'ch cymdogion a bod risg fod rywbeth ar fin digwydd, ffoniwch yr heddlu ar 999 ac yna rhowch wybod i ni drwy gysylltu â'ch Swyddog Tai neu Cyswllt Cynefin ar post@grwpcynefin.org neu **0300 111 2122**. **Gallwch aros yn ddienw.**


Fel arall, os nad yw'n argyfwng, gallwch gyfeirio'r mater i'ch cyngor lleol, drwy gysylltu â'r Swyddog ar Ddyletswydd yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y cyngor lleol, does dim rhaid i chi roi eich enw. Mae eu rhif ffôn i'w gael ar eu gwefan.

Os ydych chi'n meddwl bod unrhyw bethau penodol yn cyfrannu at y gweiddi a'r dadlau, rhowch wybod i ni pan fyddwch chi'n ffonio. Hefyd, efallai y byddwn ni'n gofyn y cwestiynau i chi i'n helpu ni i ddeall ac asesu'r sefyllfa'n well, dyma'r cwestiynau:

- Oes na unrhyw arwyddion bod y cymydog yn agored i niwed?
- Ydych chi'n meddwl y gallai cyffuriau/alcohol fod yn rhan o'r sefyllfa?
- Pwy ydych chi'n meddwl sy'n byw yn yr eiddo?
- Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw un newydd yn symud i'r eiddo neu oes yna unrhyw ymwelwyr newydd wedi bod yn mynd yno?
- Ydych chi'n poeni am lesiant unrhyw un?
- Oes plant yn byw yn yr eiddo?

Er mwyn deall y sefyllfa'n well a phenderfynu a oes angen i ni ymchwilio i'r mater o dan ein polisi ymddygiad gwrthgymdeithasol, efallai y byddwn yn rhoi ap sŵn i chi ac yn gofyn i chi gyflwyno recordiadau.

Anifeiliaid anwes



Mae cŵn yn cyfarth o bryd i'w gilydd ac rydym yn deall y gall hyn fod yn ddiflas ac yn rhwystredig iawn os ydi hynny'n digwydd yn rheolaidd. Mae gan gathod yr 'hawl i grwydro' hefyd, felly os yw cath yn baeddu mewn unrhyw le allanol (cymunedol neu breifat), nid yw hynny yn cael ei ystyried yn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rydan ni'n argymhell i chi ofyn am gyngor arbenigol ar sut i stopio cathod rhag mynd i mewn i'ch gardd bersonol yn ddiogel. Os oes gan breswylwyr aderyn mewn cawell sy'n canu neu sgrechian, rydym ni yn cyngori i'r perchnogion wneud yn siŵr ei fod yn cael ei gadw yn rywle lle bydd yn tarfu leiaf ar gymdogion, yn enwedig yn y nos. Hefyd, mae rhai anifeiliaid anwes mewn cewyll yn tueddu i fod yn fwy egniol yn y nos ac yn cnoi a ratlo eu cewyll. Meddyliwch yn ofalus lle a sut mae anifeiliaid anwes fel hyn yn cael eu cadw.

Cyfeiriwch at Gam 1 ar dudalen 3 os ydych chi'n teimlo:

- Bod anifail anwes yn tarfu arnoch chi'n gyson
- Eich bod wedi sylwi nad yw cymydog yn codi baw eu ci
- Pryder am gymydog nad yw'n cadw ei gi ar dennyn mewn ardal gymunedol, ar dir y mae Grŵp Cynefin yn berchen arno neu sy'n cael ei reoli gan Grŵp Cynefin

Os nad ydych chi'n teimlo'n gyfforddus yn siarad gyda'ch cymydog, gallwch ddefnyddio ein cerdyn 'Annwyl Gymydog'.

Parhad...



Pryd y gallai problem gydag anifail anwes ddod yn ymddygiad gwrthgymdeithasol?

Os ydach chi'n poeni bod anifail anwes yn beryglus, cysylltwch efo'r heddlu ac yna cysylltwch efo Grŵp Cynefin. Yna mi wnaen ni asesu a fyddwn ni'n edrych i fewn i'r mater o dan ein Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.




Gall hyn fod yn ymddygiad gwrthgymdeithasol os

- ydi'r cyfarth neu'r sŵn yn ddyddiol ac am gyfnodau sy'n para 30 munud
- neu am gyfnodau byrrach sy'n eich atal rhag cysgu yn ystod y nos
- neu os yw'n cael effaith ers cyfnod hir ar gymdogion uniongyrchol neu'r gymuned leol, gallai hyn fod yn ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Er mwyn deall y sefyllfa'n well a phenderfynu a oes angen i ni ymchwilio i'r mater o dan ein polisi ymddygiad gwrthgymdeithasol, efallai y byddwn yn rhoi ap sŵn i chi ac yn gofyn i chi gyflwyno recordiadau.



Arogleuon sigarêts (tybaco) a sylweddau eraill



Yn ôl y gyfraith, rhaid i ardaloedd cymunedol mewnol (grisiau, cynteddau, lifftiau a choridorau) blociau o fflatiau fod yn ddi-fwg. Fodd bynnag, mae caniatâd cyfreithiol i denantiaid ysmegu sigarêts tybaco cyffredin y tu mewn i'w cartrefi, gerddi a gallant hefyd ysmegu sigarêts mewn gerddi cymunedol.

Yn yr un modd, mae tenantiaid hefyd yn rhydd i goginio bwyd o'u dewis nhw yn eu cartref. Nid yw'r un o'r gweithgareddau hyn yn cael eu hystyried yn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fodd bynnag, efallai yr hoffech siarad â'ch cymydog i weld a oes unrhyw beth y gallant ei wneud i leihau effaith y gweithgareddau hyn ar eich cartref. Yn is i lawr ar y dudalen mae'r camau yr ydan ni'n yn eu hargymell, yn ogystal â rhai awgrymiadau i leihau arogl sigarêts a sylweddau eraill.

Awgrymiadau ar gyfer lleihau arogleuon a achosir gan...

Sigarêts

- Byddwch yn ystyriol wrth ysmegu mewn mannau allanol drwy beidio ag ysmegu'n uniongyrchol y tu allan i fynedfa'r adeilad neu o flaen, neu o dan, ffenestri eich cymdogion.
- Wrth ysmegu yn eich cartref, gwnewch yn siwr fod y lle yn cael ei awyru drwy agor ffenestri neu ystyriwch ddefnyddio peiriant puro aer.
- Gall siarcol neu finegr gwyn helpu i amsugno arogl sigarêts. Gadewch y cynwysyddion ar agor a'u newid yn rheolaidd.
- Gwnewch yn siwr eich bod yn cael gwared ar eich bonion sigarêts

Anghydfodau parcio



Wrth barcio wrth ymyl eich cartref mae'n bwysig eich bod chi a'ch cymdogion yn cofio:

- Nid oes gan neb yr hawl i barcio o flaen eu cartref ar y lon
- Peidiwch â pharcio ar draws cyrb isel na dreif a gadewch ddigon o le ar y naill ochr a'r llall i'r dreif i gar symud i mewn ac allan.
- Os yn bosibl, dylech osgoi parcio gyferbyn â dreif gan y gallai rwystro mynediad. Cyn i chi adael eich cerbyd, gofynnwch i chi'ch hun "a allwn i fynd i mewn neu allan o'r dreif?"
- Peidiwch â pharcio na chaniatáu i'ch ymwelwyr barcio yn unrhyw le heb ei ganiatáu a allai achosi problem i bobl eraill. Er enghraifft, ar lwybr neu ar draws ardaloedd sycc angen eu cadw'n glir ar gyfer lorïau bin neu gerbydau brys.
- Os ydych chi'n byw mewn gynllun neu ystâd gyda lle parcio wedi'i ddyrannu, ni ddylech chi barcio na chaniatáu i'ch ymwelwyr barcio ym mae rhywun arall hyd yn oed am gyfnod byr.
- Os ydych chi'n byw ar gynllun neu ystâd gyda lle parcio heb ei ddyrannu, mae'n golygu bod caniatâd i breswylwyr barcio yno ar sail y cyntaf i'r felin, ar yr amod bod lle parcio ar gael.
- Os ydych chi'n byw mewn cynllun lle nad yw parcio wedi'i ddyrannu ac mae gennych chi le rydych chi'n ei ffafrio, gallwch ofyn i gymydog a fyddai ots ganddyn nhw ganiatáu i chi barcio mewn lle penodol. Fodd bynnag, mae ganddyn nhw hawl i ddweud na.

Parhad...

- Ni allwch barcio cerbyd heb ei drethu/nad yw'n addas ar gyfer y ffordd mewn maes parcio sy'n eiddo i neu'n cael ei reoli gan Grŵp Cynefin ac mae hyn yn cynnwys cerbydau SORN (Hysbysiad Oddi-ar-y-Ffordd Statudol).
- Os ydych chi'n byw ar gynllun neu ystâd nad yw'n caniatáu unrhyw gerbydau masnachol gwaith, bydd hyn yn cael ei nodi yn amodau eich tenantiaeth.
- Dim ond atgyweiriadau bach rhesymol i'ch cerbydau eich hun y cewch eu gwneud yn ardal parcio'r maes parcio y caniateir i chi eu defnyddio, a rhaid i chi beidio â defnyddio offer chwistrellu paent, teclynnau codi, offer weldio nac offer pŵer.
- Dim ond ar gyfer deiliaid bathodyn glas y mae lleoedd parcio i bobl anabl. Os yw aelod o'ch aelwyd wedi'i gofrestru'n anabl neu os ydyn nhw'n fregus mewn ryw ffordd arall, gofynnwch am gyngor pellach gan Grŵp Cynefin os ydyn nhw'n cael problemau gyda pharcio.


Os oes gennych chi broblemau gyda chymydog ynglŷn ag unrhyw un o'r uchod, cyfeiriwch at Gam 1 ar dudalen 3.

Fel arall, os ydych chi'n cael trafferth gyda'ch cymdogion ynglŷn â pharcio ac yn credu bod camau y gallai Grŵp Cynefin eu cymryd, cysylltwch â ni. Gallai hyn gynnwys ymgynghori â thrigolion ynglŷn â lle parcio a neilltuwyd neu gyflwyno mesurau gorfodi parcio.



Cerddoriaeth uchel

Mae chwaeth gerddoriaeth yn amrywio felly ddylech chi ddim cymryd yn ganiataol y bydd eich cymydog eisiau ei chlywed cân dim ond oherwydd eich bod chi'n ei hoffi. Plîs:



- cadwch y sŵn i lawr, yn enwedig y bas a all darfu mwy.
- cadwch sain y teledu yn dawel yn y nos – yn enwedig os yw eich ystafell wely yn ffinio gydag ystafell wely rhywun arall.
- os ydych chi'n chwarae offeryn, ymarferwch ble a phryd y bydd yn cael yr effaith leiaf ar gymdogion.
- lle bo modd, defnyddiwch glustffonau. Byddwch yn ofalus o ffenestri agored.

Os ydych chi'n cael problemau gyda cherddoriaeth uchel, cyfeiriwch at Gam 1 ar dudalen 3.

Dim ond os yw cerddoriaeth uchel yn barhaus y byddwn yn ei hystyried yn ymddygiad gwrthgymdeithasol, a byddwn fel arfer yn gofyn i chi gyflwyno recordiadau ap sŵn. Mae hyn yn golygu na fyddai parti untro fel arfer yn cael ei ystyried yn ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae niwsans sŵn parhaus fel arfer yn golygu bod yr aflonyddwch yn para am gyfnodau parhaus o fwy na 30 munud y dydd am o leiaf 5 diwrnod o fewn wythnos neu ei fod yn digwydd yn ystod y nos rhwng 11pm a 7am.



Sŵn byw neu synau cyffredinol yn y cartref

Babanod yn crio, pobl yn siarad ac yn cerdded yn eu cartrefi, cau drysau a ffenestri, hwfro, defnyddio nwyddau gwyn a phlymio, gall pawb ddisgwyl rhywfaint o sŵn gan y bobl sy'n byw o'u cwmpas.

I leihau sŵn yn eich cartref a lleihau unrhyw aflonyddwch, edrychwch dros yr awgrymiadau canlynol a rhannwch nhw gyda'ch cymdogion lle bo modd.




Offer cartref

- Lle bo modd, gosodwch unrhyw offer ar lawr gwastad i achosi cyn lleied a phosib o aflonyddwch i'ch cymydog ac ystyriwch ddefnyddio mat arbennig sy'n lleihau'r sŵn sy'n cael ei achosi gan grynu o dan beiriannau golchi a sychwyr dillad.
- Osgowch orlwytho a cheisiwch redeg peiriant golchi ar adeg pan fydd yn tarfu leiaf ar gymdogion. Cofiwch, y troelliad olaf fel arfer yw'r rhan fwyaf swnllyd.
- Efallai y bydd rhai pobl ar dariffau trydan yn golchi eu dillad dros nos i arbed arian, felly os ydych chi neu rywun arall rydych chi'n eu hadnabod yn gwneud hynny, mae mat atal crynu yn helpu i leihau sŵn.
- Gwnewch ygwaith hwfro ar amser rhesymol. Yn enwedig os ydych chi'n byw mewn fflat neu deras, dylech osgoi glanhau yn gynnar yn y bore neu'n hwyr yn y nos.
- Yn y gegin, dylech osgoi taro sosbenni a chau drysau cypyrddau'n swnllyd a pheidiwch â defnyddio cymysgwyr/melinwyr ar arwynebau sydd yn erbyn waliau parti.
- Gall drysau cypyrddau fod yn annifyr hefyd, yn enwedig os yw'r unedau wedi'u gosod ar waliau cydrannol. Osgowch slamio drysau. Gall padiau dodrefn gludiog rhad fod yn ffordd effeithiol iawn o leihau sŵn trwy eu glynu ar du mewn drws y cwpwrdd neu o amgylch ffrâm drws mewnol.



Sŵn yr ardd

Mae ein gerddi yn lle i orffwys, ymlacio a chwarae. Cofiwch y bydd eich cymdogion yn clywed unrhyw sŵn a wnewch yn eich gardd.




- Ceisiwch wneud gweithgareddau swllyd, fel torri'ch lawnt, yng nghanol y dydd.
- Meddyliwch am lefelau desibel a chofiwch gynnal a chadw eich offer yn iawn.

- Os yw tegan neu gêm plentyn yn swllyd iawn, ceisiwch ddod o hyd i ddewis arall tawelach.
- Ni chaniateir barbeciws, trampolinau na phyllau padlo mewn mannau cymunedol.



- Os oes gennych chi farbeciw neu barti yn eich cartref neu'ch gardd, dywedwch wrth eich cymdogion. Pam na wnewch chi eu gwahodd os yw'n briodol? Dylech osgoi defnyddio “aamplifier” i chwarae cerddoriaeth uchel yn yr awyr agored ac os bydd unrhyw un yn cwyno, trowch y sŵn i lawr. Naill ai dewch â'ch parti i ben neu dewch â'ch gwesteion i mewn ar amser rhesymol.



Mynd i mewn ac allan o'ch cartref


- Osgowch slamio drysau ceir, drysau ffrynt neu ddrysau mynediad cymunedol, yn enwedig yn hwyr yn y nos neu'n gynnar yn y bore.
- Os ydych chi'n disgwyl ymwelydd, gofynnwch iddyn nhw gnocio yn hytrach na chanu corn car.



DIY (Gwneud gwaith eich hun)

Efallai y bydd angen caniatâd arnoch i wneud gwaith DIY. Am restr lawn, cyfeiriwch at lawlyfr y tenantiaid.

- Pryd bynnag y bo modd, rhowch wybod i'ch cymdogion eich bod yn bwriadu gwneud gwaith swllyd a cheisiwch weithio yn ystod oriau deffro arferol.
- Ni ddylech ddechrau cyn 8am ar ddiwrnodau gwaith a 10am ar benwythnosau a dylech orffen erbyn 5.30pm ar ddiwrnodau gwaith a 4pm ar benwythnosau fel nad yw hyn yn effeithio ar fwynhad tawel preswylwyr eraill o'u cartrefi.
- Gwnewch y tasgau mwyaf swllyd yng nghanol y dydd. Os oes rhaid i chi ddechrau'n gynnar, gwnewch waith tawelach yn gyntaf.
- Cadwch offer mewn cyflwr da a defnyddiwch osodiadau is/tawelach ar offer pŵer lle bo'n bosibl. Lle bo'n bosibl defnyddiwch offer llaw.



Os ydych chi'n cael problemau gyda'ch cymydog ynglŷn ag unrhyw un o'r uchod, edrychwch ar ein hawgrymiadau cyn mynd at Gam 1 ar dudalen 3.

All Grŵp Cynefin helpu?

Os ydych chi'n credu bod unrhyw ffactorau sy'n cyfrannu at y sŵn, rhowch wybod i ni fel y gallwn edrych yn fwy manwl ar y sefyllfa a chynghori ar y camau nesaf gorau. Er enghraifft:

- Ydych chi'n meddwl bod gan eich cymydog “underlay” a charped? *Mae'r rhan fwyaf o Gontractau Meddiannaeth yn nodi bod “underlay” a charped yn cael eu gosod oni bai ei fod yn dŷ neu'n fflat ar y llawr gwaelod.
- Os mai dim ond yn ddiweddar y mae'r sŵn wedi dechrau, a oes unrhyw waith adeiladu neu waith cynnal a chadw mawr wedi digwydd yn ddiweddar yn yr eiddo cyfagos?
- Oes gennych chi unrhyw bryderon am unrhyw broblemau atgyweirio yn yr eiddo cyfagos e.e. byrddau llawr wedi'u difrodi?
- Os mai offer cartref sy'n gwneud y sŵn e.e. peiriant golchi dillad, a ydych chi'n credu ei fod yn ddiffygiol?
- Ydych chi'n meddwl bod cartref eich cymydog yn orlawn?
- Ydych chi'n meddwl bod y bobl gywir yn byw yn yr eiddo?

Plant yn chwarae

Mae chwarae yn rhan hanfodol o fywyd pob plentyn ac mae'n hanfodol ar gyfer mwynhau plentyndod yn ogystal â'u hiechyd, lles, a datblygiad.



Er y gall rhai mathau o ymddygiad fod yn annifyr, nid yw plant yn chwarae yn eu gerddi, ardaloedd cymunedol allanol neu ar y stryd yn ymddygiad gwrthgymdeithasol.

O ganlyniad, rydan ni yn eich annog i fod yn oddefgar o blant yn chwarae.

Mae hyn oni bai eu bod yn rhegi, yn achosi difrod, neu'n cymryd rhan mewn gweithgaredd peryglus a allai achosi niwsans i gymdogion eraill neu berygl iddyn nhw eu hunain. Os yw plant yn cicio pêl yn erbyn eich wal neu os yw eu teganau mewn perygl o niweidio'ch car neu'ch ffenestri, dilynwch Gam 1 a amlinellir ar dudalen 3.

Man wrthdaro personol

Fel arfer, mae'r math yma o wrthdaro yn cynnwys anghytundeb neu anghyfeillgarwch rhwng cymdogion. Gall gynnwys edrychiadau neu syllu cas, anhoffter personol, plant yn cweryla â'i gilydd ac yn cael eu heithrio, chwalfa perthnasoedd personol a rhoi biniau allan cyn amser casglu.

Mae'n bwysig cofio nad ydym bob amser yn gwybod beth sy'n digwydd ym mywyd personol rhywun neu beth allai fod yn effeithio arnynt - ond mae'n bwysig ein bod yn trin ein cymdogion yn deg ac yn dangos parch.

Os oes gennych chi broblemau gyda chymydog ynglŷn ag unrhyw un o'r uchod, cyfeiriwch at Gam 1 ar dudalen 3.

Digwyddiadau Troseddol

Mae rhai problemau rhwng cymdogion sy'n cael eu hystyried yn droseddau a dylid adrodd amdanynt i'r heddlu ar unwaith drwy ffonio 101 neu 999. Peidiwch â cheisio delio â'r rhain eich hun.

Fel arall, gallwch gysylltu â'ch tîm heddlu lleol neu os ydych chi am aros yn ddienw ac nad yw'n argyfwng, gallwch chi roi gwybod i Crimestoppers ar-lein neu ffonio 0800 555 111. Mae enghreifftiau'n cynnwys troseddau casineb, ymosodiad a bygythiadau o drais.



Yn ogystal, mae delio cyffuriau hefyd yn drosedd, ac felly hefyd defnyddio cyffuriau (gan gynnwys cannabis) oni bai eu bod wedi cael eu rhagnodi gan feddyg at ddefnydd meddyginiaethol. Os ydych chi'n credu bod rhywun yn delio cyffuriau neu'n eu defnyddio'n anghyfreithlon, rhowch wybod i'r heddlu am hyn.

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'r heddlu ac asiantaethau eraill i fynd i'r afael â'r materion hyn, sydd hefyd yn groes i amodau'r denantiaeth a'r lesddaliad.

Os byddwch chi'n roi gwybod am unrhyw beth i'r heddlu neu Crimestoppers, cysylltwch â'ch Swyddog Tai neu Cyswllt Cynefin ar post@grwpcynefin.org neu 0300 111 2122. Byddwn yn gofyn i chi ddarparu rhif yr adroddiad digwyddiad sy'n cael ei roi gan yr heddlu gan y bydd hyn yn ein helpu i gysylltu â nhw ynglŷn â'r mater.

Gwybodaeth Bellach



Am fanylion llawn ar ein Polisi Rheoli Cymdogaethau Da, ewch i'n gwefan.